

Ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa seneddol

Dylai ymchwilyr addasu'r ffordd y caiff eu gwaith ei gyflwyno i gynulleidfa seneddol er mwyn cryfhau ei effaith.

Drwy addasu'ch arddull ysgrifennu, gall eich gwaith gael ei ledaenu'n ehangach, gall ddenu cyhoeddusrwydd a darllenwyr, ac arwain at gyfleoedd ychwanegol. Fel arall, rydych mewn perygl o wastraffu cyfle ac mae'n bosibl y caiff eich gwaith ei anwybyddu neu ei gamddeall.

Adnabod eich cynulleidfa

Mae seneddau yn wahanol i lywodraethau. Eu gwaith yw archwilio a herio'r hyn y mae'r llywodraeth yn ei wneud, trafod materion o bwys, a chynrychioli etholwyr.

Dim ond un agwedd ar y broses o wneud penderfyniadau yw tystiolaeth ymchwil; bydd profiadau bywyd pobl, ffynonellau tystiolaeth eraill, a'r hinsawdd wleidyddol ar y pryd hefyd yn cael eu hystyried.

Mae seneddwyr a staff seneddol yn fwyaf tebygol o ddefnyddio ymchwil sy'n hygyrch, yn gredadwy, yn berthnasol (i'r dadleuon gwleidyddol cyfredol neu i bynciau llosg lleol), ac yn ddiudedd.

Mae gan y pedair senedd yn y DU bwerau gwahanol. Gwnewch yn siŵr eich bod yn ymgysylltu â'r senedd sydd fwyaf perthnasol i'ch ymchwil drwy sicrhau'ch bod yn gwybod [pa bwerau sydd wedi'u datganoli](#).

P'un a ydych yn ysgrifennu ymateb i ymgynghoriad pwyllgor, comisiwn ymchwil, erthygl wadd, neu adroddiad i'w anfon at seneddwyr neu grwpiau penodol, dyma rai awgrymiadau i sicrhau bod eich ymchwil yn cael ei ddefnyddio mewn seneddau.

1. Gofalwch fod eich gwaith yn hawdd ei ddarllen

Mae seneddwyr yn bobl hynod o brysur. Mae eu gwaith yn newid yn gyflym, ac mae'n rhaid iddynt brosesu gwybodaeth a gwneud penderfyniadau'n gyflym. Mae angen iddynt wybod am lawer o wahanol feysydd i wneud eu gwaith, hyd yn oed os nad oes ganddynt gefndir yn y meysydd hynny.

Dylech ei gwneud yn hawdd i ddarllenwyr heb arbenigedd ddeall

eich gwaith, p'un a oes ganddynt 30 eiliad neu awr i'w ddarllen.

Felly, dylai'ch gwaith ysgrifennu fod yn hawdd ei ddarllen, a rhaid i chi ddod o hyd i gydbwysedd rhwng bod yn fanwl gywir ac yn gryno.

Gall helpu i ddychmygu eich bod yn egluro'r mater i ffrind gwybodus, yn hytrach na chydweithiwr sy'n gweithio yn yr un maes.

I wneud eich gwaith yn fwy darllenadwy:

- Gofalwch fod y cynnwys yn glir ymlaen llaw, drwy ysgrifennu **teitl cryno ond disgrifiadol**;
- Ysgrifennwch mewn **iaith glir** gan ddefnyddio brawddegau byr a llai o eiriau, a cheisiwch osgoi jargon, ac
- Amlygwch **ystadegau, ffeithiau, neu astudiaethau achos diddorol** y bydd darllenwyr yn eu cofio - ond peidiwch â'u gorlwytho.

2. Dewiswch gynnwys perthnasol

Cyn dechrau ysgrifennu, meddyliwch beth yw'ch nod. A ydych chi am godi ymwybyddiaeth am ganfyddiadau'ch ymchwil, rhoi ymateb arbenigol i fater penodol, neu a ydych chi am alw am newid polisi neu gyfraith yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil?

Drwy fod yn glir ynghylch yr hyn rydych am ei gyflawni, bydd yn haws penderfynu sut i ddewis a strwythuro'r cynnwys.

Mae'n debyg na fydd gan eich cynulleidfa amser i ddarllen papur ymchwil hir, felly bydd yn rhaid i chi ddewis y wybodaeth fwyaf diddorol a pherthnasol i'ch cynulleidfa a'ch nod.

Gallwch ddarparu gwybodaeth ychwanegol, fel methodoleg ac adolygiadau o ymchwil ysgrifenedig ar wahân os oes angen.

Mae'n bwysig cofio:

- **ar gyfer pwy rydych chi'n ysgrifennu** (boed yn bwyllgor, yn wasanaeth ymchwil mewnol, yn blaid wleidyddol, yn seneddwr penodol, neu'n grŵp trawsbleidiol),
- **yr hyn sydd ei angen arnynt** (fel gwybodaeth gefndir, tystiolaeth am gyfraith neu bolisi penodol, cymariaethau â gwledydd eraill, neu awgrymiadau ar gyfer newidiadau deddfwriaethol neu bolisi.)

Dylech amlygu'r pwyntiau allweddol rydych am iddynt eu cofio, hyd yn oed os nad ydynt yn darllen yr erthygl ar ei hyd. Mae hyn, fel arfer, yn golygu'ch bod yn arwain â'ch casgliadau a'ch argymhellion, a'u cysylltu'n glir ag anghenion y gynulleidfa.

Mae Seneddwyr yn cyflawni eu gwaith mewn sawl ffordd, fel holi Gweinidogion, trafod materion cyfoes, craffu ar gyfreithiau arfaethedig, cynnal ymchwiliadau, gwneud gwaith achos etholaethol, a llawer mwy.

Mae eu gwaith yn aml yn canolbwyntio ar feysydd polisi fel iechyd, addysg, nawdd cymdeithasol, amddiffyn, cydraddoldeb a'r amgylchedd.

Byddwch yn glir ynghylch sut mae eich ymchwil yn berthnasol i faes polisi penodol, mater gwleidyddol neu leol.

3. Mae angen strwythur da

Mae strwythur rhesymegol yn helpu'r darlennydd i ddeall y pwnc dan sylw.

Nid oes unrhyw un strwythur perffaith, ond mae papurau seneddol yn aml yn dilyn y patrwm a ganlyn:

- Strwythur dilyniannol, sy'n dechrau drwy ddisgrifio'r **gorffennol** (beth yw'r pwnc dan sylw, y cefndir, y cyd-destun, sut rydym wedi cyrraedd y sefyllfa hon), yna disgrifio'r sefyllfa **bresennol**, ac yna'r **dyfodol** (beth yw'r heriau a'r cyfleoedd, sut y gallai pethau newid, beth sydd nesaf), neu
- Gofyn **beth** (yw'r pwnc dan sylw), **pam** (mae o ddiddordeb), **pwyl** (mae'n effeithio arnyn, y prif randdeiliaid), **pryd** (mae'r prif effeithiau a'r penderfyniadau yn debygol o ddigwydd), **ble** (mae'n digwydd), a **sut** (y bydd yn effeithio ar y rhanddeiliaid, a beth fydd y gost).

Er mwyn i'ch darllenwyr fedru sgimio'r ddogfen am y wybodaeth sydd ei hangen arnynt, dylech:

- Ysgrifennu **crynodeb o'r prif bwyntiau neu'r argymhellion** ar y dechrau;
- Defnyddio **penawdau ac is-benawdau** sy'n disgrifio cynnwys yr adran ddilynol;

Cewch ragor o gyngor ynghylch ysgrifennu ar gyfer cynulleidfa seneddol drwy gysylltu â'r timau cyfnewid gwybodaeth yn:

- [Senedd y DU](#)
- [Senedd Cymru](#)
- [Cynulliad Gogledd Iwerddon](#), a
- [Senedd yr Alban](#).

- Defnyddio **diagramau, ffigurau, neu ddelweddau data** i wneud gwybodaeth yn fwy diddorol;
- Defnyddio **blychau testun** i roi gwybodaeth ychwanegol nad yw'n gwbl angenrheidiol, neu nad yw'n ffitio yn y prif destun, fel diffiniadau, cyfreithiau, neu astudiaethau achos;
- Cynnwys lincs i wybodaeth fanylach.

Nodwch ddyddiad eich gwaith bob amser, a rhowch fanylion cyswllt rhag ofn y bydd angen rhagor o wybodaeth.

4. Byddwch yn gytbwys

Caiff eich ymchwil ei ledaenu'n eang mewn seneddau felly gallai gwahanol bleidiau gwleidyddol ei ddefnyddio. Ystyriwch a ydych am gyflwyno safbwynt gwleidyddol, neu a fyddai'n well gennych i'ch cyfraniad fod yn wleidyddol gytbwys. Gwnewch yn siŵr bod eich gwaith yn gytbwys drwy:

- Gynnwys **amrywiaeth lawn o safbwyntiau**;
- Peidio â rhoi barn bersonol;
- Enwi'ch **ffynonellau**, a
- Bod yn glir am unrhyw **ansicrwydd, a chyfyngiadau** neu **fyllchau yn y dystiolaeth**.